Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| | |
|---|---|
| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
| **CYFARFOD ARBENNIG O'R PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO** | **SPECIAL MEETING OF THE PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 15 HYDREF 2018 am 2.00 o'r gloch** | **MONDAY, 15 OCTOBER, 2018 at 2.00 p.m.** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** |

| | | |
|---|---|---|
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Y Grwp Annibynnol / The Independent Group**

Gwilym O. Jones **(Cadeirydd/Chair),** Dafydd Roberts

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

Trevor Lloyd Hughes MBE, Vaughan Hughes, Alun Roberts, Margaret M. Roberts, Nicola Roberts

**Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents**

Kenneth P Hughes, R.Ll.Jones **(Is-Gadeirydd/Vice-Chair)**

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Glyn Haynes

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Ms. Anest Gray Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr. Dafydd Gruffydd ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

**R H A G L E N**

1 **YMDDIHEURIADAU**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU - GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH**

Derbyn cyflwyniad gan y Rheolwr Diogelwch Cymunedol y Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

4 **GWASANAETH CYNLLUNIO AT ARGYFWNG RHANBARTHOL - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Rhanbarthol y Gwasanaeth Cynllunio ac Argyfwng Rhanbarthol.

5 **RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 7 - 10)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Sgriwtini.

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**<u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio |
| **Dyddiad:** | 15.10.2018 |
| **Pwnc:** | Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol a diweddariad ar faterion Cynllunio Argyfwng yn y Cyngor |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Diweddaru Aelodau ar faterion Cynllunio Argyfwng |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd G O Jones |
| **Aelod(au) Portfolio:** | Cynghorydd Llinos Medi |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Lynn Ball |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Neil Culff, Rheolwr, Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (NWC-REPS)<br><br>Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| 1 Gofynnir i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar y prif faterion a nodir yn yr adroddiad fel rhan o graffu trefniadau partneriaethau.<br>2 Bod y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau eraill yn y dyfodol ar waith y Cyngor i baratoi ar gyfer argyfyngau a hefyd adroddiadau penodol yn sgil argyfyngau lleol/rhanbarthol y mae'r Cyngor yn ymateb iddynt. |

| **2 – Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Nid yw gwaith NWC-REPS yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag drwy gynlluniau Parhad Busnes priodol ac ymateb i argyfyngau a chynlluniau adferiad, mae'r Cyngor yn lliniaru effaith argyfyngau ar gymunedau |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau i graffu'r pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal

- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

| **4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol** |
|---|
| - Beth yw’r blaenoriaethau ar gyfer gwaith Cynllunio Argyfwng ar draws Gogledd Cymru?<br>- Oes sgôp ar gyfer mwy o gydweithio ar faterion penodol?<br>- Beth yw’r sgôp ar gyfer dysgu ar y cyd ar draws y rhanbarth o bersbectif Aelodau?<br>-Oes na flaenoriaethau penodol y dylai’r Cyngor ganolbwyntio arnynt dros y 3 blynedd nesaf? |

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ynghylch y trefniadau rhanbarthol ar gyfer cynllunio ac ymateb brys, a'r trefniadau sydd o fewn y Cyngor ei hun.

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswyddau ar gyfer cynllunio ac ymateb brys dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004, Rheoliadau Ymbelydredd (Parodrwydd ar gyfer Argyfyngau a Gwybodaeth Gyhoeddus) 2001, a Rheoliadau Diogelwch Piblinellau 1996.

Mae'r Cyngor yn cyflawni ei rwymedigaethau trwy gydweithio ag awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru trwy Wasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru (NWC-REPS), y mae Cyngor Sir y Fflint yn gyfrifol amdano. Mae NWC-REPS yn adrodd i Fwrdd Gweithredol, sy'n cynnwys swyddog o bob un o'r awdurdodau lleol sy'n bartneriaid i'r gwasanaeth. Mae rhaglenni gwaith rhanbarthol yn cael eu hadrodd a’u monitro gan y Bwrdd.

Mae'r Gwasanaeth hwn wedi bod yn ei le ers 2014 a Gogledd Cymru yw'r rhanbarth gyntaf yng Nghymru i ffurfio gwasanaeth hollol integredig i gynorthwyo pob cyngor i gyflawni eu gwaith cynllunio argyfwng, parhad busnes a dyletswyddau ymateb. Un o brif nod sefydlu’r gwasanaeth oedd cynyddu gwytnwch a chefnogaeth arbenigol i awdurdodau lleol

NWC-REPS yw'r prif gysylltiad rhwng y Cyngor a Fforwm Cydnerth Lleol Gogledd Cymru (LRF), ac mae cyfraniadau gan staff gwasanaeth yn hanfodol i grwpiau, digwyddiadau, prosesau a chynlluniau amlasiantaethol. Yn ychwanegol at gyfrannu i NWC-REPS, mae cynrychiolydd o CSYM yn mynychu grwpiau Rhybuddio a Hysbysu a Thywydd Garw’r LRF yn rheolaidd. Ceir mewnbwn arbenigol arall gan gydweithwyr ar draws y sefydliad yn ôl yr angen.

O fewn y Cyngor, rhennir cyfrifoldebau am gynllunio argyfwng ac ymateb i argyfyngau ar draws gwasanaethau ac mae cynrychiolwyr enwebedig ym mhob gwasanaeth. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd o Weithgor Cynllunio Argyfwng CSYM. O safbwynt cyfrifioldeb mae’r maes hwn yn cael ei reoli oddi mewn i wasanaeth Busnes y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn elwa o gael mynediad at ystod eang o wybodaeth a chefnogaeth gan y gwasanaeth, mae hyn yn cynnwys rhannu arferion da ar draws ardaloedd awdurdod. Fodd bynnag, er mwyn i'r gwasanaeth fod yn effeithiol, mae'n hollbwysig bod

gwasanaethau'r Cyngor yn parhau i ymgysylltu â'r gweithgareddau sy'n cael eu cyflawni, er mwyn sicrhau bod cynllunio brys, parhad busnes ac ymateb i argyfyngau wedi eu sefydlu'n gadarn yn y Cyngor.

**RHAGLEN WAITH RHANBARTHOL**

**Trosglwyddo Swyddogaethau Gweithredol**

Trosglwyddwyd swyddogaethau gweithredol ar gyfer argyfyngau sifil i Lywodraeth Cymru ar y 24 Mai 2018.

**Ffliw Pandemig**

Mae NWC-REPS yn gweithio ar draws y rhanbarth gyda'r LRF ac asiantaethau partner i adolygu'r trefniadau parodrwydd ar gyfer Ffliw Pandemig. Mae cydweithwyr iechyd yn awyddus i sicrhau bod trefniadau ar waith ar gyfer y tymor 'ffliw' a bod Pandemig yn parhau i fod yn y categori 'Uchel Iawn' ar y Cofrestrau Risg Cenedlaethol a Chymunedol. Bydd y gwaith hwn yn cysylltu â threfniadau Parhad Busnes a bydd unrhyw ganllawiau angenrheidiol yn cael eu dosbarthu i asiantaethau perthnasol fel sy'n briodol.

**Adroddiad Kerslake**

Paratowyd yr adroddiad yn dilyn adolygiad o'r ymateb amlasiantaethol i'r ymosodiad yn y Manchester Arena ar 22 Mai 2017. Mae NWC-REPS wedi llunio Dadansoddiad 'Bwlch' o'r argymhellion sydd â goblygiadau i Awdurdodau Lleol. Bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu trwy'r Gweithgor Cynllunio Argyfwng. Mae'r ffocws sydd yn yr Adroddiad ar arweinyddiaeth ddinesig yn yr ymateb i'r ymosodiad a'r ymdrech adfer wedyn yn arbennig o berthnasol i awdurdodau lleol. Mae rhaglen Dysgu a Datblygu NWC-REPS yn cynnwys hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig a bydd yn rhoi sylw i'r arferion da a nodwyd.

**Strategaeth Gwydnwch Cymunedol**

Mae NWC-REPS a'r Bwrdd Gweithredol wedi cytuno ar Strategaeth Gwytnwch Cymunedol ar gyfer 2017-20. Nod y Strategaeth hon yw darparu cyngor a chefnogaeth i unigolion a chymunedau gyda'r bwriad y byddant, drwy hynny, yn fwy parod a gwydn pan yn wynebu argyfyngau a'u canlyniadau. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor i fusnesau a sefydliadau gwirfoddol ynglŷn â rheoli parhad busnes, sy'n ofyniad statudol o Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004. I gynorthwyo, mae NWC-REPS wedi datblygu 'pecyn cymorth' sy'n cynnwys Cynllun Argyfwng Cartref, Cynllun Argyfwng Cymunedol a Rhestr Wirio Parhad Busnes ar gyfer Mentrau Bychan a Chanolig eu maint. Ar hyn o bryd, mae'r Strategaeth mewn cyfnod arbrofol gyda nifer o Gynghorau Tref a Chymuned yn cymryd rhan yn wirfoddol fel y gellir cael adborth ynghylch a yw dogfennau'r pecyn cymorth yn ddefnyddiol cyn i'r fersiynau diwygiedig gael eu cynhyrchu a'u cyflwyno dros y 12 mis nesaf. Bwriedir adrodd i Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned maes o law.

**RHAGLEN WAITH CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Cynlluniau Parhad Busnes**

Argymhellodd Adroddiad Archwilio Mewnol 2017 ar gynlluniau Parhad Busnes CSYM y dylai trefniadau fod yn eu lle i sicrhau bod cynlluniau Parhad Busnes Gwasanaethau yn cael eu diweddaru'n flynyddol. Mae hyn fel arfer yn digwydd yn Chwarter 3.

Fel rhan o waith ar gyfer y chwarter hwn bwriada NWC-REPS adolygu ansawdd cynlluniau parhad busnes o safbwynt risg a hefyd ystyried y gwersi a ddysgwyd o ddigwyddiad llifogydd diweddar Llangefni a digwyddiadau tywydd garw. Hefyd mae NWC-REPS yn cynorthwyo'r Cyngor gyda threfniadau ar gyfer cynnal ymarferiad ar y cyd gyda Chyngor arall yn Mawrth 2019 i brofi cynlluniau argyfwng- bydd hyn hefyd yn gyfle i adolygu cynlluniau a dysgu ar y cyd.

**Cynllunio ar gyfer uwch gyfeirio bygythiadau**

Mae rhan arall o'r gwaith yn ymwneud â'r maes uchod a threfniadau awdurdodau i ymateb i ofynion diogelwch cenedlaethol. Mae polisi diogelwch adeiladau y Cyngor yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**Digwyddiad Llifogydd Llangefni - Tachwedd 2017**

Mae NWC-REP hefyd wedi bod yn cefnogi'r Cyngor yn y gwaith o ddelio gyda'r uchod. Ers y digwyddiad mae sawl gweithred sy'n ymwneud â'r Pencadlys wedi cael sylw gan swyddogion. Hefyd mae gwaith yn parhau gyda Chyfoeth Naturiol Cymru o ran rheoli afonydd Cefni, Braint a Rhyd y Dyffryn. Eisoes fe ddiweddarwyd Aelodau lleol ar gynnydd.

**Ymarfer MônCefni**

Fe gynhaliwyd ymarferiad yng nghanolfan hamdden Plas Arthur ym Medi 2017.Nod ymarfer Môn Cefni oedd rhoi cyfle i staff canolfannau gorffwys y Cyngor ymarfer sefydlu a rhedeg canolfan orffwys a rhoi prawf ar elfennau o ddogfen Canllawiau CSYM ar gyfer Canolfannau Gorffwys. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wrthi ar hyn o bryd yn paratoi canllaw i awdurdodau lleol er mwyn hybu gwirfoddolwyr i gynorthwyo mewn canolfan orffwys. Bydd hyn yn cael sylw gan y Cyngor yn ystod chwarter 4 2018/19

**Rhybuddion Tywydd Garw**

Gyda chymorth NWC-REPS mae prosesau mewn lle i anfon rhybuddion Ambr ynghylch Tywydd Difrifol i staff perthnasol mewn awdurdodau lleol. Mae hyn yn galluogi staff i gyfathrebu gwybodaeth ymlaen llaw fel sy'n briodol.

**Unigolion bregus sy'n byw mewn ardaloedd a effeithir gan argyfwng**

Cynhyrchwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth mewn cydweithrediad rhwng NWC-REPS, Heddlu Gogledd Cymru a Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth Gogledd Cymru - Prosiect Exodus. Mae NWC-REPS wedi bod yn cydweithio gyda staff perthnasol y Cyngor i sicrhau y gellir cael at y data perthnasol ar unigolion bregus a'i rannu'n brydlon.

**Difrod Marina Caergybi - Mawrth 2018**

Fe ddiweddarwyd Aelodau yn barod ar ymwneud y Cyngor a'r camau gweithredu a gymerwyd yn sgil difrod storm ym Mawrth 2018. Mae'n fwriad rhannu'r gwersi a ddysgwyd ar draws yr asiantaethau a fu'n rhan o'r digwyddiad a bydd NWC-REPS yn cefnogi'r dasg hon.

**Wylfa Newydd**

Mae NWC-REPS wedi bod yn rhan o fforymau perthnasol pan roddwyd sylw i faterion cynllunio argyfwng. Bydd NWC-REP yn cyfannu at waith Is-Grŵp Adeiladu Wylfa Newydd a sefydlwyd i gydlynu materion cynllunio argyfwng yn ystod adeiladu. Bydd yr Is-grŵp yn adrodd i Bwyllgor Ymgynghorol Cynllunio Argyfwng Wylfa sy'n cynnwys rhanddeiliaid perthnasol.

**6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Dim Asesiad wedi'i gynnal.

**7 – Oblygiadau Ariannol**

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn parhau i gynnig model cost effeithiol a gwydn. Ers 2014, gwnaed gostyngiad blynyddol o 2% yng nghyfraniad ariannol blynyddol CSYM i'r gwasanaeth o ganlyniad i lefelau cyllidebol llai a gwelliannau i strwythur y gwasanaeth.

| Cyfraniadau Ariannol CSYM i NWC-REPS ers sefydlu'r gwasanaeth | |
|---|---|
| 2014/15 | 72,482 |
| 2015/16 | 67,049 |
| 2016/17 | 65,708 |
| 2017/18 | 64,394 |
| 2018/19 | 63,106 |

**8 – Atodiadau**

**9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

Cytundeb lefel gwasanaeth rhyng-awdurdod ar gyfer gwasaneth Cynllunio Argyfwng NWC-REPS.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO: 2017/2018 →2018/2019

SGRIWTINI

Cadeirydd: Cynghorydd Gwilym O Jones
Is-Gadeirydd: Cynghorydd Robert Llewelyn Jones

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am y cyfnod Mai 2017 ymlaen, fel rhaglen dreigl a theclyn cynllunio pwrpasol. Adroddir ar y blaen raglen waith i bob cyfarfod arferol o'r Pwyllgor Sgriwtini i'r pwrpas o adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu i ohirio / dynnu eitemau yn ôl. Ei phwrpas hefyd ydy sicrhau aliniad gyda blaen raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| **Mehefin, 2018** | | |
| **19 Mehefin, 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Aelodaeth Panel Sgriwtini Cyllid a Bwrdd Trawsnewid Addysg | - |
| | Adroddiad Blynyddol Cymunedau yn Gyntaf | Monitro perfformiad |
| | Cynlluniau Adfywio Cymunedol – Amlwch a Biwmaris | Monitro Perfformiad |
| | Sgriwtini o Bartneriaethau | Monitro perfformiad<br>(Pendnderfyniad Pwyllgor Sgriwtini Corfforathol 2/10/17) |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Gorffennaf, 2018** | | |
| **9 Gorffennaf 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Medrwn Môn | Monitro Perfformiad |
| | Strategaeth Gwrthdlodi | Datblygu Polisi |
| **Medi, 2018** | | |
| **24 Medi 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Adroddiad Blynyddol -Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ( Iechyd a Gofal Cymdeithasol) | Monitro perfformiad |
| | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | **Hydref, 2018** | |
| **15 Hydref 2018**<br>Ystafell Pwyllgor 1/2pm | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru | Cyd weithio |
| | Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol Gogledd Cymru | Monitro Perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | |
| | **Tachwedd, 2018** | |
| **13 Tachwedd 2018**<br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini cychwynol o'r drefn lwodraethol a'r strwythur gweithredu y BGC ( i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol –Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Rhagfyr, 2018** | |
| Cyfarfod arbennig (I'w gadarnhau neu 5/2/19) | Adroddiad – Perfformiad Ysgolion Môn (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | **Chwefror , 2019** | |
| **5 Chwefror 2019 (eitemau i'w gadarnhau)**<br>Committee Room 1/ 2pm | Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru | Cais Pwyllgor(24/9/18) |
| | Adroddiad – Perfformiad Ysgolion Môn (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | GwE- Adroddiad Blynyddol 2016/2017 (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| | **Mawrth, 2019** | |
| **12 Mawrth 2019**<br>Committee Room 1/ 2pm | Moderneiddio'r Gwasanaeth Hamdden anstatudol (cyfnod 3 blynedd) | Craffu cyn penderfyniad |
| | Bwrdd Gwasanethau Cyhoeddus –sgriwtini o cynnydd ar weithredu y Cynllun Llesiant (i'w gadarnhau) | Monitro perfformiad |
| | Medrwn Môn | Monitro perfformiad |

Tudalen 9

| Dyddiad Cyfarfod | Eitem | Pwrpas |
|---|---|---|
| | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **Ebrill, 2019** | | |
| **9 Ebrill 2019** | Partneriaeth Angenion Addysgol Ychwanegol -Gwynedd a Môn | Monitro perfformiad |
| | Panel Sgriwtini: Adolygu Cynnydd Ysgolion (Adroddiad Cynnydd) | Monitro perfformiad |
| Committee Room 1/ 2pm | Blaen Rhaglen Gwaith | Adolygu |
| **EITEMAU I'W RHAGLENNU** | | |
| **Mehefin / Gorffennaf , 2019** | Sgriwtini o Adroddiad Blynyddol Gyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | |
| **i'w gadarnhau** | Fargen Twf Gogledd Cymru | |
| **i'w gadarnhau** | Heddlu Gogledd Cymru-Ardal Ynys Môn | |
| **i'w gadarnhau** | Gwahoddiad i Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | |